



EIP WALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success




menter a busnes



Gwella rheolaeth llyngyr mewn geifr

Kate Hovers, MRCVS, milfeddyg annibynnol, sy'n ymateb i rai chwedlau a chamsyniadau cyffredin ynghylch rheoli llyngyr mewn geifr.



Mae rhoi atchwanegion mwynau yn well i'r geifr yn y tymor hir na chymryd yn ganiataol mai llyngyr yw'r broblem bob amser.

Dim ond os oes ddiffygiad mae hyn yn datrys y broblem. Does dim tystiolaeth y bydd rhoi atchwanegion yn gwella problem llyngyr sy'n bodoli eisoes. Yn y tymor hir, mae fel arfer yn rhatach talu am gyngor na dyfalu a thalu am driniaethau nad oes eu hangen.



Rydych chi'n dechrau gyda'r drensh clir ac yn mynd drwy'r lliwiau pan welwch arwyddion nad ydynt yn gweithio.

Nid yw'r newid lliw o glir i oren llachar yn dangos cryfder na'r drefn i'w defnyddio. Gall defnyddio gwahanol ddrensh ar wahanol adegau (gan ddilyn cyngor milfeddygol) ond heb lynu wrth yr un math ymestyn oes ddefnyddiol pob un ohonynt.

Rwyf wedi ysgrifennu'r dyddiadau y mae angen i mi ddrenso ar fy nghalendr ers y llynedd. Does dim wedi newid felly byddaf yn gwneud yr un peth eto.

Mae pob math o ffactorau yn dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd eich geifr a'r eifre yn gyffredinol yn wynebu baich llyngyr, gan gynnwys tymheredd y pridd a'r aer, hyd y gwair, beichiogrwydd, lefelau straen (cludo, trin, ac ati), a hefyd gall unrhyw eifr newydd i'r eifre gyflwyno poblogaethau newydd o lyngyr.

Mae geifr llawn dwf yn gallu gwrthsefyll llyngyr yn well na stoc ifanc.

Yn wahanol i ddefaid, anaml y mae geifr yn dod i wrthsefyll llyngyr yn well wrth iddynt heneiddio.

Rwy'n trin fy ngeifr fel anifeiliaid anwes. Dydyn nhw ddim yn dod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill i ddal llyngyr oddi wrthynt.

Oni bai eu bod yn cael eu cadw dan do yn barhaol, cânt gyfle i 'godi' llyngyr o'r borfa.



Mae geifr fel defaid, mae ganddynt yr un parasitiaid yn eu perfedd, felly dylen ni ddefnyddio'r un drensh i'w trin.

Ychydig iawn o gynhyrchion sydd wedi'u trwyddedu i'w defnyddio mewn geifr. Mae rhai drenshis sy'n effeithiol ac yn ddiogel i ddefaid yn wenwynig i eifr. Mae'n hanfodol cynllunio sut byddwch yn rheoli parasitiaid gyda chymorth eich milfeddyg. Gall roi gwybodaeth bwrpasol ar gyfer eich geifre.

Mae cyfradd y dos (ml/kg) yr un peth ag ar gyfer defaid oherwydd eu bod yn debyg.

Mae gan eifr gyfradd metabolaeth uwch sy'n golygu y gallant fwyta pob math o bethau'n ddiogel (nid popeth, serch hynny, ac eithriadau annisgwyl fel rhai drenshis defaid). Bydd milfeddyg gwybodus yn rhoi cyngor i chi ynghylch y driniaeth briodol a chyfradd y dos.

Os byddaf yn rhoi dos iddynt pan nad oes ei angen, oes ots mewn gwirionedd? Dim ond ychydig bunnoedd sydd wedi'i wastraffu.

Os nad oes ei angen, peidiwch â'u trin. Bob tro y bydd parasitiaid yn y perfedd yn cael triniaeth mae potensial y bydd rhai yn goroesi - ac mae hynny'n cyflymu datblygiad poblogaeth o lyngyr sydd ag ymwrthedd, sy'n costio llawer mwy yn y tymor hirach.

Mae'r holl ddrenshis yn trin yr holl lyngyr felly nid oes angen i mi wastraffu arian yn gofyn i'm milfeddyg na hyd yn oed yn profi pa lyngyr sydd ganddyn nhw.

Y nod yw gwaredu'r baich llyngyr heb gyfaddawdu ar effeithiolrwydd y drenshis sydd ar gael i chi a cheidwaid geifr a defaid eraill yn y dyfodol.



Mae grŵp o ffermwyr geifr o ganolbarth a de Cymru yn gweithio gyda Kate Hovers, MRCVS mewn prosiect EIP yng Nghymru sy'n ymchwilio i'r opsiynau gorau ar gyfer rheoli llyngyr mewn geifr. Gallwch ddilyn eu cynnydd yma: <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/partneriaeth-arloesi-ewrop-yng-nghymru-eip-wales/prosiectau-eip-wedi-cymeradwyo/gwella-0>